# Cynllun Aberthu Cyflog ar gyfer Cerbyd Allyriadau Isel Iawn Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Hwn yw'r Llawlyfr i Yrwyr, ac mae'n ofynnol i'r brifysgol a'r cyflogai lofnodi a chytuno i'r telerau hyn.

Fel cyflogai, rydych yn deall ac yn cytuno â'r canlynol:

- ❑ Eich bod wedi darllen a deall y llawlyfr i yrwyr hwn, ac yn cytuno i gael eich rhwymo gan y telerau yn y ddogfen hon
- ❑ Gall cymryd rhan yn y cynllun hwn effeithio ar eich pensiwn ac rydym yn argymell eich bod yn siarad â'ch darparwr pensiwn neu gynghorydd ariannol annibynnol i ddeall y goblygiadau'n llawn
- ❑ Gan y bydd cymryd rhan yn y cynllun hwn yn lleihau eich cyflog gros, rydych yn deall y gall hyn hefyd effeithio ar chwiliadau fforddiadwyedd ar gyfer ceisiadau morgais a gwasanaethau ariannol eraill
- ❑ Gallai cymryd rhan yn y cynllun newid eich cod treth, a gallai hefyd effeithio ar fuddion eraill yr ydych yn eu derbyn ar hyn o bryd
- ❑ Caiff eich contract cyflogaeth ei amrywio gan delerau'r cytundeb aberthu cyflog ac mae hwn yn ddatganiad o newid i'ch contract cyflogaeth (o dan adran 4 o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996)
- ❑ Chi fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y car yn cael ei gadw'n ddiogel, dan oruchwyliaeth ac yn eich meddiannaeth, tan ddiwedd y trefniant hwn
- ❑ Byddwch yn cadw'r car yn eich meddiant ac o dan eich rheolaeth, oni bai ei fod yn cael ei wasanaethu, ei gynnal a'i gadw, ei atgyweirio neu fod prawf MOT yn cael ei gynnal arno
- ❑ Chi fydd yn gyfrifol am gostau a thaliadau – y manylir arnynt yn y llawlyfr i yrwyr hwn – efallai na fydd yr aberth cyflog yn eu cynnwys. Byddwch yn talu costau o'r fath i Knowles Fleet yn uniongyrchol
- ❑ Rydych yn deall ac yn cytuno y gall newidiadau i'r gyfraith a chyfraddau'r dreth buddion mewn nwyddau neu wasanaethau arwain at gynnydd yng nghostau'r car ac felly cynyddu'r aberth cyflog misol er mwyn ymdrin â newidiadau o'r fath
- ❑ Ni fyddwch yn defnyddio'r car at ddibenion masnachol, gan gynnwys fel gyrrwr danfon nwyddau nac i gludo unigolion am ffi, ac ni fyddwch ychwaith yn ei ddefnyddio ar gyfer cystadlu mewn unrhyw chwaraeon modur
- ❑ Ni fyddwch yn cymryd unrhyw gamau a fyddai'n annilysu'r polisi yswiriant fflyd
- ❑ Ni fyddwch yn gwerthu, aseinio, yn codi tâl, yn addo, yn llogi nac yn delio â'r car mewn unrhyw ffordd arall, ac ni fyddwch yn caniatáu i fuddiant diogelwch gael ei greu dros y car

## Datganiad

**Rwyf wedi darllen, deall a chytuno i'r holl delerau ac amodau yn y cytundeb polisi aberthu cyflog hwn ac, yn benodol, y bydd unrhyw ddidyniadau gofynnol yn cael eu tynnu drwy'r gyflogres, yn ôl yr angen, ac y bydd yn ofynnol newid fy nghontract cyflogaeth yn ffurfiol.**

| | |
|---|---|
| **Y cyflogai** | |

| | |
|---|---|
| **Y sawl sy'n cymeradwyo** | |

# Cynllun Aberthu Cyflog ar gyfer Cerbyd Allyriadau Isel Iawn Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

| | |
|---|---|
| **Llofnod** | |
| **Swydd** | |
| **Dyddiad** | |

| | |
|---|---|
| **Llofnod** | |
| **Swydd** | |
| **Dyddiad** | |

## Cynnwys


Beth yw'r Cynllun Aberthu Cyflog ar gyfer Cerbyd Allyriadau Isel Iawn? .......... 3
Pwy yw Knowles Fleet? .......... 3
A yw'r cynllun hwn yn iawn i mi? .......... 4
Beth yw'r rheolau cymhwystra / rheolau'r cynllun? .......... 4
Sut mae hyn yn effeithio ar fy mhensiwn a budd-daliadau'r wladwriaeth? .......... 4
Beth os ydw i ar gontract rhan-amser neu gontract am gyfnod penodol? .......... 5
Beth yw manteision y cynllun? .......... 6
Beth sydd wedi'i gynnwys? .......... 6
Beth yw buddion mewn nwyddau neu wasanaethau? .......... 6
Beth yw'r opsiynau ar gyfer y cyfnod llogi ar brydles? .......... 7
Beth na fydd eich taliad aberth cyflog yn ei gynnwys? .......... 7
Beth yw costau terfynu cynnar? .......... 8
Beth os ydw i'n mynd ar absenoldeb salwch hirdymor yn ystod y contract? .......... 9
Beth am absenoldeb rhiant? .......... 9
Beth os byddaf yn gadael fy nghyflogaeth gyda'r brifysgol? .......... 10
A allaf drosglwyddo fy nghar os byddaf yn newid swydd? .......... 10
Pa ddirwyon a thaliadau eraill y byddai'n ofynnol imi eu talu? .......... 10
A fyddaf yn gallu hawlio milltiroedd busnes o hyd? .......... 12
Sut y gallaf gael dyfynbris a gosod archeb? .......... 13
A allaf newid fy archeb ar ôl imi ei gosod? .......... 14
A allaf ganslo archeb? .......... 15
Pryd fydd fy nhaliad cyntaf? .......... 15
Pam mae fy nyfynbrisiau yn wahanol i rai fy nghydweithwyr? .......... 15
A allaf ychwanegu eitemau at y car yn ystod y contract fel bar tynnu neu deiars gaeaf? .......... 15
A allaf osod archeb drwy fy nelwriaeth leol? .......... 15
A oes gennych gerbyd y gallaf ei ddefnyddio nes bod fy ngherbyd yn cael ei ddanfon ataf? .......... 16
Pa waith gofal a chynnal a chadw sydd eu hangen? .......... 16
Sut y gallaf drefnu gosod man gwefru gartref ar gyfer car trydan neu gar hybrid? .......... 18
Beth am yswiriant? .......... 18
Beth os ydw i'n cael damwain? .......... 19

# Cynllun Aberthu Cyflog ar gyfer Cerbyd Allyriadau Isel Iawn Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

A allaf fynd â'm car dramor? ..... 21

Beth sy'n digwydd ar ddiwedd y contract? ..... 21

## Beth yw'r Cynllun Aberthu Cyflog ar gyfer Cerbyd Allyriadau Isel Iawn?

Mae Cynllun Prydles Aberthu Cyflog ar gyfer Cerbyd Allyriadau Isel Iawn Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn cael ei weithredu gan Knowles Fleet.

Mae aberthu cyflog yn drefniant lle rydych yn cytuno i ildio (aberthu) peth o'ch cyflog gros (eich cyflog cyn didynnu treth incwm a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol) yn gyfnewid am fudd-dal anariannol, megis car, a ddarperir gan eich cyflogwr.

Mae hyn yn golygu nad oes rhaid ichi dalu treth, na chyfraniadau yswiriant gwladol ar y swm y byddwch yn ei ildio. Enghreifftiau eraill o gynlluniau aberthu cyflog yw beicio i'r gwaith a thalebau gofal plant.

Drwy ymuno â'r cynllun hwn, rydych yn cytuno i aberthu swm o'ch cyflog gros, yn fisol, yn gyfnewid am gerbyd allyriadau isel iawn newydd sbon. Bydd y car hwn yn cael ei brydlesu ichi am gyfnod penodol (naill ai dwy neu dair blynedd) a bydd terfyn milltiredd a gytunir ymlaen llaw yn weithredol hefyd.

**Mae'r brifysgol yn gweithredu'r cynllun hwn gyda'r nod o helpu cyflogeion i elwa ar gyfraddau prydles sylweddol is ac, ar y sail hon, drwy ddewis i ymuno â'r cynllun hwn bydd yn rhaid ichi gymryd cyfrifoldeb llawn am eich cerbyd dewisol.**

## Pwy yw Knowles Fleet?

Mae Knowles Fleet yn gwmni sy'n eiddo i'w weithwyr ac yn arbenigo mewn dylunio cynlluniau ceir ar brydles a gwasanaethau gweinyddu i sefydliadau ledled y DU. Nid ydym yn gwmni llogi neu brydlesu cerbydau nac yn frocer credyd.
Mae'r holl ddyfynbrisiau cerbyd, telerau ac amodau a dogfennaeth wedi'u cymeradwyo gan eich cyflogwr ac maent yn unol â pholisïau eich sefydliad.

# Cynllun Aberthu Cyflog ar gyfer Cerbyd Allyriadau Isel Iawn Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

## A yw'r cynllun hwn yn iawn i mi?

Fel y nodwyd, mae'n bwysig eich bod yn ceisio cyngor ariannol annibynnol cyn ymrwymo i unrhyw ymrwymiadau ariannol. Mae'r cynllun hwn yn ymrwymiad ariannol hirdymor, a dylech ei ystyried yn ofalus cyn symud ymlaen. Wrth ymgymryd â phrydles rydych yn gwneud ymrwymiad ariannol am y cyfnod hwnnw, ac fel y manylir yn y llawlyfr hwn, gall cynllun o'r fath effeithio ar agweddau eraill megis pensiynau a chael goblygiadau ariannol eraill megis gwiriadau fforddiadwyedd ar gyfer morgeisi a benthyciadau.

Ni all y brifysgol ddarparu unrhyw gyngor ariannol, ac felly rydym yn argymell eich bod yn ceisio cyngor annibynnol er mwyn gwneud penderfyniad gwybodus. Efallai y bydd y cyrff hyn yn gallu eich helpu hefyd:

- ✓ Unbiased: https://unbiased.co.uk/
- ✓ Money Advice Service: https://www.moneyadviceservice.org.uk/cy/articles/choosing-a-financial-adviser

Sicrhewch eich bod yn deall eich rhwymedigaethau cyfreithiol yn llawn cyn symud ymlaen ac y bydd eich contract cyflogaeth yn newid yn ffurfiol o ganlyniad i'r aberth cyflog hwn.

## Beth yw'r rheolau cymhwystra / rheolau'r cynllun?

Er mwyn cymryd rhan yng Nghynllun Aberthu Cyflog Cerbydau Trydan PCYDDS, byddai cymhwystra'n seiliedig ar weithwyr:

- ✓ sydd ar gontract parhaol neu gyfnod penodol (llawn amser neu ran-amser) a delir trwy system gyflogres y Brifysgol
    - caniateir i weithwyr cyfnod penodol godi cytundebau sy'n gorffen cyn i'w swydd cyfnod penodol ddod i ben yn unig
- ✓ sydd wedi cwblhau eu cyfnod prawf yn llwyddiannus
- ✓ nad ydynt wedi derbyn rhybudd ffurfiol eu bod mewn perygl o golli eu swydd
- ✓ nad ydynt o dan ymchwiliad disgyblu ffurfiol lle gallai'r honiadau fod yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol
- ✓ na fyddai eu cyflog yn disgyn o dan y cyflog byw/isafswm cyflog cenedlaethol ar ôl didynnu'r aberthu cyflog a gytunwyd
- ✓ nad ydynt yn bwriadu ymddeol yn ystod cyfnod y cytundeb
- ✓ sy'n dal trwydded yrru ddilys â chaniatâd i'w defnyddio yn y DU

Gallwch ymuno â'r cynllun ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn a bydd yr aberthu cyflog yn parhau am gyfnod prydles y cerbyd a gytunwyd. Rydych chi'n gyfrifol am roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau i'ch amgylchiadau a allai effeithio ar eich cymhwystra.

## Sut mae hyn yn effeithio ar fy mhensiwn a budd-daliadau'r wladwriaeth?

Bydd hyn yn dibynnu ar eich pensiwn unigol ac mae'n bosibl y bydd goblygiadau o ran cyfraniadau'r cyflogai a chyfraniadau'r cyflogwr i'ch pensiwn. Ni chaniateir i Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ddarparu cyngor ariannol yn ymwneud â phensiynau unigol, ac felly nid yw'n derbyn unrhyw

gyfrifoldeb am yr effaith ar bensiynau unrhyw unigolyn o ganlyniad i ymuno â'r cynllun. Rydym felly yn argymell eich bod yn ceisio cyngor pensiynau annibynnol cyn ymuno â'r cynllun, fel eich bod yn gwbl ymwybodol o'r effaith.

Er gwybodaeth, mae'r tabl isod yn crynhoi dealltwriaeth y brifysgol o'r tri phrif ddatrysiad pensiwn (ym mis Tachwedd 2022):

| | |
|---|---|
| USS | Oherwydd bod cynllun pensiwn USS yn seiliedig ar gyflog tybiannol (cyn unrhyw ostyngiadau aberthu cyflog), byddai cyfraniadau'r pensiwn gan y cyflogai a'r cyflogwr yn aros yr un fath hyd yn oed gyda didyniadau aberthu cyflog.<br><br>I gael cymorth a chefnogaeth drwy USS, ewch i https://www.uss.co.uk/help-and-support |
| LGPS | Ar gyfer cyflogeion sydd â phensiwn LGPS (Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol) Dyfed neu Abertawe, pe bai cyflogai yn ymuno â chynllun aberthu cyflog yna, yn wahanol i ddull yr USS, byddai hyn yn seiliedig ar gyflog gros (ar ôl aberthu cyflog). Felly, petaech yn ymuno â'r cynllun hwn byddai cyfraniadau'r cyflogai a'r cyflogwr yn lleihau ac yn cael effaith negyddol ar gronfeydd pensiwn y cyflogai. Gweler y ddolen isod am ragor o fanylion am gynlluniau LGPS Dyfed ac Abertawe. Fel y nodwyd eisoes, argymhellir eich bod yn ceisio cyngor pensiynau cyn ymrwymo i'r cynllun hwn.<br><br>Taflenni Ffeithiau LGPS ar aberthu cyflog ar gyfer car Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol:<br>https://www.dyfedpensionfund.org.uk/media/1704/dpf-salary-sacrifice-factsheet-english.pdf<br>https://www.swanseapensionfund.org.uk/wp-content/uploads/2018/06/Salary-Sacrifice.pdf<br><br>Rhagor o wybodaeth am y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol:<br>https://www.cronfabensiwndyfed.org.uk/cynllun-pensiwn-llywodraeth-leol/<br>https://www.swanseapensionfund.org.uk/cy/ |
| TPS | Yn yr un modd â phensiynau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, mae'r TPS (Cynllun Pensiwn Athrawon) hefyd yn seiliedig ar gyflog gros ar ôl didyniadau aberthu cyflog. Felly, petaech yn ymuno â'r cynllun hwn, byddai cyfraniadau'r cyflogai a'r cyflogwr yn lleihau ac yn cael effaith negyddol ar gronfeydd pensiwn y cyflogai.<br><br>I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'ch darparwr pensiynau. Fel y nodwyd yn flaenorol, argymhellir eich bod yn ceisio cyngor pensiynau cyn ymrwymo i'r cynllun hwn. |

Sylwch y gallai aberthu swm o gyflog gros hefyd effeithio ar eich hawl i nifer o fudd-daliadau gwladol. Rydym yn argymell eich bod yn ceisio cyngor gan y cyrff perthnasol cyn ymuno â'r cynllun.

## Beth os ydw i ar gontract rhan-amser neu gontract am gyfnod penodol?

Mae'r holl gyflogeion ar gyflogres y brifysgol yn gymwys ar gyfer y cynllun hwn ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf cymhwystra y nodwyd yn gynharach yn y ddogfen hon, gan gynnwys contractau rhan-amser neu a chontractau am gyfnod penodol.

# Cynllun Aberthu Cyflog ar gyfer Cerbyd Allyriadau Isel Iawn Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

## Beth yw manteision y cynllun?

**Arbed talu rhywfaint o dreth incwm ac Yswiriant Gwladol –** Ni fyddwch yn talu treth nac Yswiriant Gwladol ar y rhan o'ch cyflog y byddwch yn ei aberthu i dalu am y car. Bydd angen ichi dalu'r dreth buddion mewn nwyddau neu wasanaethau (gweler isod am ragor o fanylion), ond po wyrddaf y car a ddewiswch, y lleiaf y byddwch yn ei dalu. Os dewiswch gerbyd trydan, byddwch yn arbed yn sylweddol ar dreth.

**Arbed costau a chostau rhedeg y car -** Gallwch elwa ar gyfraddau ffafriol a'r gostyngiadau a negodwyd gyda gweithgynhyrchwyr drwy'r cyflenwr. Yn ogystal â hyn, fel rhan o'r gost fisol sefydlog, mae'r cynllun yn talu am yr holl waith gwasanaethu a gwaith cynnal a chadw, ac yn cynnwys yswiriant torri i lawr 24/7 ac yswiriant cynhwysfawr.

**Sicrwydd ynglŷn â chost yswiriant** – Mae yswiriant eich cerbyd wedi'i gynnwys yn y gyfradd brydles fisol ac mae'n sefydlog drwy gydol cyfnod eich prydles. Gweler yr adran "Beth am yswiriant?" am ragor o fanylion.

**Dim blaendal i'w dalu** – ni wneir unrhyw wiriadau credyd ac nid oes angen talu ffioedd trefnu na ffioedd danfon / casglu

## Beth sydd wedi'i gynnwys?

Rydych yn talu un gost sefydlog syml bob mis, am gyfnod eich cytundeb. Mae hynny'n cynnwys:

- Cost y car
- Treth y car (Trwydded Cronfa'r Ffordd)
- Costau cynnal a chadw a gwasanaethu
- Teiars newydd, gan gynnwys difrod damweiniol a thyllau
- Yswiriant cynhwysfawr sy'n sefydlog drwy gydol cyfnod y brydles
- Gwasanaeth rheoli damweiniau
- Gwasanaeth torri i lawr / adfer 24/7/365
- Cynllun terfynu cynnar wrth gefn er mwyn diogelu rhag senarios penodol (gweler Atodiad Un)
- Profion MOT (os oes angen)

Nid yw eich taliad aberthu cyflog yn cynnwys y gofyniad ichi dalu'r dreth buddion mewn nwyddau neu wasanaethau, a fydd yn berthnasol ichi os byddwch yn defnyddio'r cynllun.

## Beth yw buddion mewn nwyddau neu wasanaethau?

Mae'n ofynnol i gyflogeion sy'n ymuno â'r cynllun dalu'r dreth buddion mewn nwyddau neu wasanaethau, gan fod y cerbyd ar gael at ddefnydd preifat ac wedi'i ddarparu fel budd drwy eich cyflogwr. Fel rhan o broses pennu dyfynbris Knowles Fleet, darperir cyfrif dangosol i gyflogeion ar gyfer buddion mewn nwyddau neu wasanaethau er mwyn rhoi syniad iddynt o'r swm blynyddol i'w dalu, ond gall y ffigur hwnnw newid o 2025/26 ymlaen.

Dylai cyflogeion gyfeirio at wefan CThEF am ragor o wybodaeth am dreth ceir cwmni a sut mae'n cael ei chyfrifo www.hmrc.gov.uk/cars. Bydd swm y dreth buddion mewn nwyddau neu wasanaethau fisol yn cael ei hychwanegu at eich taliad treth misol yn awtomatig.

# Cynllun Aberthu Cyflog ar gyfer Cerbyd Allyriadau Isel Iawn Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Ar gyfer Ebrill 2022/23 swm y dreth buddion mewn nwyddau neu wasanaethau ar gyfer cerbyd trydan yw 2%, ac mae hyn hefyd yn wir ar gyfer 2023/24 a 2024/25. Nid yw Llywodraeth y DU wedi penderfynu beth fydd yn digwydd o fis Ebrill 2025/26 ymlaen eto.

Ar gyfer cerbydau hybrid, mae swm y dreth buddion mewn nwyddau neu wasanaethau yn dibynnu ar y car ei hun (yn seiliedig ar allyriadau $CO_2$ g/km ac ystod y milltiredd trydan). Gweler yma am ragor o wybodaeth am hyn.

## Beth yw'r opsiynau ar gyfer y cyfnod llogi ar brydles?

Mae telerau safonol y brydles yn para am naill ai 24 neu 36 mis. Bydd modd amrywio'r terfyn milltiredd, gan ddibynnu ar eich gofynion. Fodd bynnag, caniateir uchafswm o 20,000 o filltiroedd y flwyddyn. Os yw swm y milltiroedd yn rhagori ar y terfyn hwn, caiff dyfynbris a chyngor eu darparu i'r cwsmer ar sail unigol.

## Beth na fydd eich taliad aberth cyflog yn ei gynnwys?

- Costau terfynu cynnar penodol (dylech roi sylw gofalus i'r adran "Taliadau terfynu cynnar" isod ac Atodiad Un)
- Dirwyon gyrru a thaliadau amrywiol gan gynnwys taliadau am filltiredd sydd uwchlaw'r terfyn (gweler dirwyon a thaliadau)
- Costau traul a gwisgo gormodol (gweler dirwyon a thaliadau)
- Taliadau yswiriant ychwanegol yn achos hawliad (gweler yr adran yswiriant am fanylion)
- Hylifau ail-lenwi, gan gynnwys hylif gwrthrewi, olew injan ac AdBlue (os oes angen) rhwng gwasanaethu'r car. Os caiff unrhyw hylifau eu hail-lenwi fel rhan o wasanaeth, bydd y gost yn cael ei gynnwys.
- Er bod Knowles yn gwneud pob ymdrech i drefnu cerbyd arall yn lle'r car ar log os yw'n torri i lawr neu mewn damwain, nid yw'r contract yn cynnwys car cwrteisi rhad ac am ddim. Gellir cynnwys cerbyd wrth gefn yn eich contract am gost ychwanegol, a hynny ar gais i'n tîm dyfynbrisiau ar adeg archebu eich cerbyd, ond ni ellir ychwanegu'r opsiwn hwn yn ystod eich contract.
- Nid yw'r contract yn cynnwys unrhyw ddifrod a achosir i'r cerbyd o ganlyniad i yrru'n anghywir, methu â dilyn y cyfarwyddiadau sydd wedi'u cyhoeddi yn llawlyfr y gwneuthurwr neu ddifrod o ganlyniad i drawiad. Y gyrrwr fydd yn gyfrifol am unrhyw gostau ychwanegol nad ydynt wedi'u cynnwys o dan y contract.

Mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Knowles Fleet wedi cymryd pob cam rhesymol i liniaru'r costau hyn a darperir gwybodaeth yn y ddogfen hon sy'n dweud mwy wrthych am eich cyfrifoldebau.

Sylwch y byddai Knowles Fleet, fel rhan o'r gwasanaeth o weinyddu fflyd, yn ceisio cael y taliadau hyn oddi wrthych chi'r cyflogai yn uniongyrchol.

Er bod y broses ychydig yn wahanol ym mhob achos, yn gryno byddai Knowles Fleet yn derbyn yr holl anfonebau ar gyfer y taliadau hyn. Byddant yn cysylltu â chi i ofyn am daliadau gyda dogfennau ategol lawn. Yn gyffredinol, gwneir taliadau dros y ffôn i Knowles Fleet, a fydd yn setlo'r rhain yn uniongyrchol gyda'r cwmni prydlesu.

# Cynllun Aberthu Cyflog ar gyfer Cerbyd Allyriadau Isel Iawn Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Bydd unrhyw daliadau yswiriant ychwanegol yn cael eu talu gennych chi, yn uniongyrchol i'r garej sy'n gwneud y gwaith atgyweirio ar ôl cwblhau'r gwaith hwnnw a chyn i'r cerbyd gael ei gasglu.

## Beth yw costau terfynu cynnar?

Os byddwch yn gadael y cynllun o fewn cyfnod eich contract, efallai y bydd yn ofynnol ichi dalu taliad terfynu cynnar ar sail y tabl isod.

| BLWYDDYN Y TERFYNIAD | Y CYFNOD PRYDLESU A AMSERLENNWYD | |
|---|---|---|
| | DWY FLYNEDD | TAIR BLYNEDD |
| **BLWYDDYN 1** | **Deufis** | **Pum mis** |
| **BLWYDDYN 2** | **Mis** | **Tri mis** |
| **BLWYDDYN 3** | | **Mis** |

Gan ddibynnu ar hyd eich cytundeb, byddech yn talu nifer priodol y misoedd o daliadau prydlesu – nodwch fod y taliadau prydlesu a ddefnyddir wrth gyfrifo ffioedd terfynu cynnar yn seiliedig ar gost car y cwmni prydlesu ac nid ar eich gostyngiad net misol.

Er enghraifft, os oedd gennych gyfnod prydles o dair blynedd ac yn gadael y cynllun yn ystod y flwyddyn gyntaf, byddai eich ffi terfynu cynnar yn bum gwaith y taliad prydles. Byddai hyn yn deirgwaith y taliad prydles ym mlwyddyn dau ac yn ystod y flwyddyn olaf byddai'r ffi terfynu cynnar gyfwerth ag un taliad prydles.

Ceir manylion llawn y senarios terfynu cynnar yn **Atodiad Un** ond, yn gryno, pan fo cyflogai eisiau terfynu'r contract yn gynnar, byddai'r senarios canlynol yn golygu **y byddech yn atebol** am dalu'r taliadau terfynu cynnar perthnasol:

- Ymddiswyddo
- Y cyflogwr yn terfynu contract
- Ymddeol yn ystod y cytundeb
- Colli trwydded (oherwydd cyflwr anfeddygol h.y. gwaharddiad neu drwydded dros dro)

Fodd bynnag, fel rhan o sefydlu'r cynllun, mae'r brifysgol, ar y cyd â'n cyflenwr, wedi rhoi yswiriant terfynu cynnar penodol ar waith a fyddai'n golygu y byddai'r senarios canlynol yn golygu y byddai unrhyw gostau terfynu cynnar yn cael eu talu gan y cyflenwr:

- Diswyddo gorfodol
- Colli trwydded (oherwydd cyflwr meddygol)
- Marw yn y swydd
- Salwch terfynol

Fel ein cyflenwr, mae dull gweithredu Knowles Fleet yn pennu mai dim ond fel dewis olaf y codir ffioedd terfynu cynnar a, pryd bynnag y bo modd, y gwneir ymdrechion i symud y brydles i gyflogai arall yn y brifysgol, neu hyd yn oed i gwsmeriaid eraill y cyflenwr. O ganlyniad, o ran ffioedd terfynu cynnar, mae'r risg i'r cyflogai yn lleihau ymhellach.

# Cynllun Aberthu Cyflog ar gyfer Cerbyd Allyriadau Isel Iawn Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

***Fel rhan o'r broses o bennu dyfynbris, bydd y ffioedd terfynu cynnar sy'n berthnasol i'r dyfynbris yn cael eu crynhoi fel bod y ffioedd ar gyfer pob blwyddyn o'r cytundeb yn eglur ichi.***

## Beth os ydw i’n mynd ar absenoldeb salwch hirdymor yn ystod y contract?

Mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn cydnabod y gall cyflogeion sy’n methu â gweithio oherwydd salwch neu analluogrwydd yn ystod cyfnod contract prydles brofi gostyngiad yn eu cyflog ac, o ganlyniad, yn pryderu am feddu ar gar ar brydles.

Ar gyfer amgylchiadau fel hyn, drwy ein dewis cyflenwr, mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant hefyd wedi ymgorffori modd o amddiffyn unrhyw gyflogai nad yw’n gallu dod i’r gwaith oherwydd salwch hirdymor – o’r pwynt y mae ei gyflog yn gostwng o dâl llawn i dâl is – gan sicrhau y bydd ei daliadau’n cael eu talu am hyd at chwe mis. Ar ôl i’r cyflogai ddychwelyd i'r gwaith, bydd ei daliadau’n ailgychwyn. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn **Atodiad Un**.

## Beth am absenoldeb rhiant?

Mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn cydnabod y posibilrwydd y bydd cyflogeion yn dymuno cymryd absenoldeb rhiant yn ystod cyfnod y contract prydles, a’i bod yn bosibl, yn ystod y cyfnod hwnnw, y gall cyflog cyflogai ostwng i dâl statudol neu dâl llai. O ystyried hyn, efallai y bydd gennych bryderon am y costau o feddu ar gar prydles.

Mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, drwy ein dewis gyflenwr, wedi ymgorffori modd o amddiffyn y cyflogai os yw’n symud i gyflog statudol neu’n ennill llai o dâl yn ystod absenoldeb rhiant, fel y bydd y cyflenwr yn talu’r taliadau am uchafswm o chwe mis o’r pwynt hwnnw ymlaen. Ar ôl i’r cyflogai ddychwelyd i'r gwaith ar gyflog llawn, bydd y taliadau'n ailddechrau.

Sylwch mai dim ond ar gyfer un achos o absenoldeb mamolaeth yn ystod prydles eich cerbyd y gellir defnyddio’r amddiffyniad hwn. Os ydych yn cymryd ail gyfnod o absenoldeb rhiant yn ystod cyfnod eich prydles ar gontract a bod eich cyflog yn gostwng o dan y cyflog byw cenedlaethol, yna bydd yr opsiynau canlynol ar gael ichi pan fydd gostyngiad yn eich tâl yn cael effaith:

- Opsiwn 1 – Dod â'r cytundeb i ben a dychwelyd y car. Byddai’n ofynnol ichi dalu’r ffioedd terfynu cynnar a nodwyd yn flaenorol.
- Opsiwn 2 – Parhau i dalu am y car, drwy archeb sefydlog ar wahân* i Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, pan na fydd yn bosibl cymryd didyniadau o’ch cyflog mwyach.

**Os ydych yn dychwelyd i’r gwaith ond y cytunir i leihau eich oriau cytundebol, ar eich cais, rhaid i chi ystyried y canlynol:**

Os yw’r cyflog sy’n weddill, ar ôl didynnu costau prydlesu, yn is na’r cyflog byw cenedlaethol, ni all y contract prydles barhau ar ei ffurf bresennol. Yn yr achos hwn, bydd yr opsiynau canlynol ar gael ichi:

- Opsiwn 1 – Gallwch ddychwelyd y cerbyd a thalu unrhyw gostau terfynu cynnar cysylltiedig.
- Opsiwn 2 – Parhau i dalu am y car, drwy archeb sefydlog*, i Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, pan na fydd yn bosibl cymryd didyniadau o’ch cyflog mwyach.

**** PWYSIG – Sylwch fod unrhyw ddidyniadau a gymerir drwy archeb sefydlog yn debygol o fod ar gyfradd uwch na’r gyfradd aberthu cyflog.***

Ceir rhagor o fanylion am hyn yn **Atodiad Un**.

# Cynllun Aberthu Cyflog ar gyfer Cerbyd Allyriadau Isel Iawn Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

## Beth os byddaf yn gadael fy nghyflogaeth gyda'r brifysgol?

Yn unol â'r adran uchod, os ydych yn ymddiswyddo o'r busnes, **fel arfer bydd yn ofynnol ichi dalu'r costau terfynu cynnar yn ogystal ag unrhyw gostau eraill yr eir iddynt (dirwyon a thaliadau).**

Nid oes unrhyw opsiwn ar gael i gyflogai brynu unrhyw gerbyd os yw'n gadael y busnes yn ystod ei gontract prydles. Os ydych yn gadael y busnes ar **ddiwedd** y contract prydles, cynigir yr opsiwn ichi brynu'r car drwy Knowles Fleet.

**Sylwch** y bydd Knowles Fleet yn cysylltu â chi i drefnu eich bod yn talu unrhyw ffioedd terfynu cynnar, taliadau am filltiredd sydd uwchlaw'r terfyn ac ad-daliadau am ddifrod. Sylwch y dylid hysbysu tîm rheoli damweiniau Knowles Fleet am unrhyw ddifrod i gerbyd cyn ei ddychwelyd.

Fodd bynnag, os byddwch yn gadael eich cyflogaeth ac yn symud i sefydliad arall, mae'n bosibl y bydd modd trosglwyddo'r cerbyd i'r cyflogwr newydd, ond dim ond ar yr amod bod y cyflogwr newydd, y cyflogwr presennol a'r cwmni prydlesu yn cytuno i hynny, a'ch bod yn talu taliad gweinyddol. Os yw'r cyflogai'n dewis dychwelyd y cerbyd, bydd yn ofynnol iddo dalu cosb ariannol o ganlyniad i derfynu'r contract yn gynnar (gweler yr adran ar derfynu'n gynnar yn y ddogfen hon).

## A allaf drosglwyddo fy nghar os byddaf yn newid swydd?

Os ydych yn newid swydd gyda'ch cyflogwr presennol, bydd yn bosibl cadw eich cerbyd yn y rhan fwyaf o achosion. I drafod hyn, ffoniwch ni ar 01206 255425.

Os ydych yn newid cyflogwr, mae'n bosibl y bydd modd trosglwyddo'r cerbyd os ydych yn aros yn y sector cyhoeddus. Os ydych yn symud i'r sector preifat, mae'n debygol y bydd yn rhaid i chi ddychwelyd eich cerbyd a thalu unrhyw gostau terfynu sy'n berthnasol.

I ddarganfod a yw'n bosibl trosglwyddo'ch cerbyd, cysylltwch â ni ar 01206 257219 cyn ymddiswyddo fel y gallwch wneud penderfyniad gwybodus.

Os na chawn wybod am gais ynglŷn â throsglwyddo cerbyd tan ychydig cyn neu ar ôl y dyddiad trosglwyddo gofynnol, neu os oes unrhyw fylchau mewn cyflogaeth, efallai na fydd modd trosglwyddo'r cerbyd a bydd yn ofynnol ichi dalu unrhyw gostau terfynu cynnar. Felly, mae'n hanfodol eich bod yn ein hysbysu'n gynnar am drosglwyddo'r cerbyd o bosibl.

## Pa ddirwyon a thaliadau eraill y byddai'n ofynnol imi eu talu?

Chi sy'n gyfrifol am dalu unrhyw ddirwyon gyrru a gyflwynir yn eich erbyn wrth yrru eich car, a hynny'n ddi-oed. Bydd unrhyw ddirwyon nad ydynt yn cael eu talu o fewn y cyfnod a nodir yn cael eu talu gan y cwmni prydlesu. Yna, ychwanegir taliad ychwanegol at y ddirwy am gost o £20 + TAW, a bydd Knowles Fleet yn cysylltu â chi er mwyn adennill cost lawn y ddirwy, gan gynnwys y ffi weinyddol.

Mae cyflogeion hefyd yn gyfrifol am unrhyw gostau amrywiol sy'n gysylltiedig â'r cerbyd a ddarperir. Bydd y rhain hefyd yn daladwy i Knowles Fleet yn uniongyrchol. Mae'r rhain yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Tâl canslo – costau sy'n gysylltiedig â chanslo archeb cerbyd cyn iddo gael ei ddanfon

# Cynllun Aberthu Cyflog ar gyfer Cerbyd Allyriadau Isel Iawn Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

- Taliad am filltiredd sydd uwchlaw'r terfyn – taliad ar sail cyfradd ceiniogau'r filltir, a godir ar ddiwedd y contract, os yw milltiredd y cerbyd uwchlaw terfyn y contract. Er mwyn osgoi'r taliad am filltiredd sydd uwchlaw'r terfyn, dylech sicrhau eich bod yn amcangyfrif yn ofalus faint o filltiroedd rydych yn disgwyl eu teithio yn flynyddol wrth osod eich archeb oherwydd ni ellir newid hyn yn ystod cyfnod y contract
- Taliadau ar ddiwedd y contract – costau a godir gan Knowles Fleet os yw'r cerbyd yn cael ei ddychwelyd gyda difrod neu wedi'i dreulio'n ormodol. Ceir rhagor o fanylion isod
- Eitemau sydd y tu allan i'r cytundeb cynnal a chadw – eitemau coll, wedi'u difrodi neu wedi torri, a chamdriniaeth y gyrrwr (e.e. defnyddio'r tanwydd anghywir)

## Costau ar ddiwedd y contract

Gallwch ddisgwyl inni godi taliadau arnoch os ydych yn dychwelyd eich cerbyd gydag ôl traul a gwisgo gormodol ar ddiwedd cyfnod y contract. Mae prif achosion traul a gwisgo gormodol yn cynnwys y canlynol:

- Diffyg gwiriadau rheolaidd gan y gyrrwr yn arwain at namau a difrod sy'n mynd heb eu canfod a heb eu hatgyweirio
- Peidio â chadw at yr amserlen cynnal a chadw a gwasanaethu a argymhellir gan y gwneuthurwr
- Methiant y gyrrwr i gymryd cyfrifoldeb am ofalu am y cerbyd a'i gynnal a'i gadw o ddydd i ddydd, gan arwain at esgeulustod cyffredinol
- Atgyweiriadau o ansawdd gwael i gorff y cerbyd (dylech bob amser ddefnyddio atgyweiriwr sydd wedi'i gymeradwyo gan Knowles Fleet)
- Stampiau coll ar lyfrau gwasanaeth / llyfrau gwasanaeth coll
- Colli allweddi

Bydd taliadau ar ddiwedd y contract yn daladwy i Knowles Fleet yn uniongyrchol, a dylech sicrhau bod y cerbyd yn cael ei gynnal a'i gadw yn unol ag argymhellion y gwneuthurwr.

Byddwch yn cael gwybod tua chwech i naw mis ymlaen llaw (gan ddibynnu ar amodau'r farchnad) bod diwedd cyfnod prydlesu eich cerbyd yn nesáu. Ar yr adeg hon, fe'ch cynghorir i wirio'r cerbyd yn ofalus a rhoi gwybod i Knowles Fleet am unrhyw ddifrod fel y gellir ei atgyweirio.

## Dirwyon a hysbysiadau cosb benodedig

Fel y nodwyd eisoes, rydych yn gyfrifol am dalu dirwyon yn ddi-oed, oni bai eich bod yn bwriadu dadlau yn eu cylch. Os oes sail wirioneddol i'ch dadl, dylech gysylltu'n ysgrifenedig â'r awdurdod dyroddi ar unwaith, gan esbonio'r amgylchiadau, a chadw copi o'r llythyr ar gyfer eich cofnodion eich hun ac anfon copi at Knowles Fleet.

Ceir rhagor o wybodaeth am y gwahanol ddirwyon isod:

## Dirwyon goryrru

Fel ceidwad cofrestredig y cerbyd, Knowles Fleet fydd yn cael yr hysbysiad am ddirwy goryrru gyntaf. Nesaf, bydd Knowles Fleet yn rhoi eich manylion i'r awdurdod dyroddi. Eich cyfrifoldeb chi yw talu'r ddirwy i Knowles cyn gynted â phosibl.

## Dirwyon am ddefnyddio ffôn symudol

# Cynllun Aberthu Cyflog ar gyfer Cerbyd Allyriadau Isel Iawn Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Rydyn ni eisiau i chi (a'r bobl o'ch cwmpas) gadw’n ddiogel tra'ch bod chi'n gyrru. Mae yn erbyn y gyfraith ichi ddefnyddio'ch ffôn wrth yrru oni bai eich bod yn gwneud hynny drwy offer llawrydd neu Bluetooth. Os ydych yn defnyddio ffôn symudol wrth yrru ac yn cael eich dal, chi fydd yn gyfrifol am dalu unrhyw ddirwyon cysylltiedig.

### Dirwyon parcio

Bydd Knowles Fleet yn cael unrhyw hysbysiadau am ddirwyon parcio sydd i’w talu. Ar ôl eu derbyn, bydd Knowles Fleet yn rhoi eich manylion i'r awdurdod dyroddi.

Eich cyfrifoldeb chi yw talu'r ddirwy cyn gynted â phosibl. Chi fydd yn gyfrifol am unrhyw ddirwyon na thalwyd o fewn y cyfnod penodedig a bydd Knowles Fleet yn ychwanegu taliad gweinyddol at y ddirwy. Bydd Knowles Fleet yn adennill cost y ddirwy, gan gynnwys y ffi weinyddol, oddi wrthych chi yn uniongyrchol.

Unwaith y bydd dirwy wedi'i thalu ni ellir dadlau yn ei chylch, ac felly, os ydych eisiau ei herio bydd angen ichi roi gwybod i Knowles Fleet cyn gynted â phosibl.

### Dirwyon am gamddefnyddio lôn fysiau

Bydd Knowles Fleet yn cael hysbysiadau am ddirwyon am gamddefnyddio lôn fysiau. Ni all Knowles Fleet wrthod talu’r taliad ar y sail bod y cerbyd yn gar ar brydles. Ar y sail hon, bydd Knowles Fleet yn gwneud y taliadau ac yn adennill cost y ddirwy, gan gynnwys unrhyw ffi weinyddol, oddi wrthych chi yn uniongyrchol.

### Taliadau atal tagfeydd

Os ydych chi'n teithio mewn parth tagfeydd, bydd angen ichi dalu'r taliadau ymlaen llaw neu erbyn 10pm ar y diwrnod y byddwch chi'n mynd i mewn i ardal y taliadau atal tagfeydd. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw'r dderbynneb fel prawf bod taliad wedi’i wneud. Gellir talu'r taliad dros y ffôn, ar-lein neu mewn man talu mewn Swyddfa’r Post a rhai siopau a garejys. Os nad ydych yn talu'r taliad erbyn hanner nos ar y diwrnod y byddwch chi'n mynd i mewn i ardal y taliadau atal tagfeydd, byddwch chi'n cael dirwy a gaiff ei chyflwyno ichi drwy Knowles Fleet. Bydd yn ofynnol ichi dalu'r ddirwy yn unol â'r amserlen a nodir ar yr hysbysiad. Bydd taliad gweinyddol yn cael ei ychwanegu at y ddirwy am unrhyw daliadau nad ydynt yn cael eu talu o fewn y cyfnod a nodir. Bydd Knowles Fleet yn adennill cost y ddirwy, gan gynnwys unrhyw ffi weinyddol, oddi wrthych chi yn uniongyrchol.

## A fyddaf yn gallu hawlio milltiroedd busnes o hyd?

Os ydych yn teithio ar fusnes swyddogol, byddwch yn gallu hawlio ad-daliadau milltiredd o hyd, a hynny drwy broses arferol y brifysgol. Fodd bynnag, bydd CThEF yn ymdrin â char a ddarperir drwy’r cynllun hwn fel car cwmni ac felly mae’r dull o brosesu hawliadau milltiredd ychydig yn wahanol.

Fel rhan o'r broses o bennu dyfynbris, gallwch nodi amcangyfrif o’ch milltiredd blynyddol – o ran milltiredd personol a milltiredd busnes. Os ydych yn penderfynu nodi milltiredd busnes yn y dyfynbris, bydd y gost fisol yn cynnwys y swm perthnasol o dan y didyniad cyflog, a bydd rhan o'r lwfans yn cael ei thynnu o gost y car wrth gyfrifo’r dyfynbris, gan leihau'r swm y byddwch yn ei dalu am ddefnydd preifat. Mae rhan arall y lwfans wedi’i neilltuo ar gyfer tanwydd a bydd yn cael ei drethu os yw'r lwfans yn fwy na chyfradd tanwydd cynghorol CThEF (AFR). Gellir dod o hyd i'r cyfraddau hyn yma. Sylwch mai 5c y filltir yw’r gyfradd tanwydd cynghorol ar gyfer ceir trydan ar hyn o bryd (mis Tachwedd 2022). Yn achos ceir hybrid, mae hyn yn dibynnu ar faint yr injan a’r tanwydd.

# Cynllun Aberthu Cyflog ar gyfer Cerbyd Allyriadau Isel Iawn Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

***Sylwch, drwy ychwanegu milltiredd busnes wrth gyfrifo'r dyfynbris, y bydd y gost fisol yn ymddangos yn rhatach gan fod yr offeryn yn tybio y byddwch yn hawlio'r milltiroedd hynny yn ôl bob mis. Cliciwch ar yr opsiwn "quote details" i weld dadansoddiad o'r costau pan ydych yn cael dyfynbris.***

Yn achos aberthu cyflog, mae arbedion yn seiliedig ar eich tâl gostyngol, felly nid yw'r lwfans milltiredd yn cael ei wrthbwyso yn erbyn cost y car. Mae hyn oherwydd y byddai'n arwain at arbedion is ac yn lleihau'r budd o aberthu cyflog. Telir y lwfans llawn pan ydych yn cyflwyno'ch datganiad milltiredd busnes. Bydd y lwfans a roddir ichi yn unol â chyfraddau tanwydd cyhoeddedig CThEFM.

## Sut y gallaf gael dyfynbris a gosod archeb?

### 1. Mewngofnodwch i "Portal name"

Ar ôl ichi benderfynu eich bod eisiau archwilio'r opsiwn hwn ymhellach, y peth cyntaf y bydd angen i chi ei wneud yw ymweld â system borthol Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant Knowles Fleet yn www.knowlesfleet.com/uwtsd <http://www.knowlesfleet.com/uwtsd> a sefydlu cyfrif defnyddiwr i chi'ch hun. Wrth sefydlu eich cyfrif defnyddiwr bydd angen i chi ddewis yr opsiwn cywir o ran pensiwn eich cyflogwr er mwyn sicrhau eich bod yn derbyn dyfynbrisiau cywir.

### 2. Cael dyfynbris

Ar ôl ichi benderfynu pa gar y mae gennych ddiddordeb ynddo, gallwch gael dyfynbris ar gyfer y taliad prydles misol. Os oes gennych ddiddordeb mewn mwy nag un car, gallwch gael dyfynbrisiau ar gyfer pob un ohonynt, a'u cadw er mwyn eu cymharu a'ch helpu i wneud penderfyniad.

**Mae'r cam hwn o'r broses, pan ydych yn ystyried ac yn cymharu yn bwysig iawn oherwydd, ar ôl ichi gyflwyno'ch archeb, ni fydd modd ichi ei diwygio na'i chanslo heb dalu taliadau y codir arnoch am wneud hynny.**

- Mae dyfynbrisiau'n ddilys am 14 diwrnod ac yn amodol ar newidiadau ym mhrisiau'r gwneuthurwr neu newidiadau deddfwriaethol, a ph'un a oes modd cynhyrchu'r cerbyd o dan sylw
- Os yw'ch dyfynbris yn hŷn na 14 diwrnod, bydd angen i chi gael dyfynbris newydd
- Er bod dyfynbris yn ddilys am 14 diwrnod, dylech gyflwyno'ch dyfynbris cyn gynted â phosibl er mwyn ei gwneud yn bosibl i dîm awdurdodi Knowles Fleet awdurdodi eich archeb. Bydd Knowles Fleet wedyn yn cadarnhau a ydych yn gymwys ac yn awdurdodi'r archeb, ac yna bydd y broses wedi'i chwblhau.

### 3. Profi gyrru ceir

Os hoffech chi drefnu i brofi gyrru car mewn garej yn eich ardal chi, cysylltwch â'r deliwr perthnasol yn uniongyrchol. Ni all Knowles Fleet na'r brifysgol drefnu ichi brofi gyrru ceir ar eich rhan.

### 4. Archebu'ch cerbyd

Ar ôl ichi benderfynu pa gar yr hoffech ei brydlesu, gallwch gyflwyno'ch archeb drwy borth Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant Knowles Fleet, a bydd hwn wedyn yn cael ei gyfeirio at dîm Adnoddau Dynol / Cyflogres Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i'w gymeradwyo. Bydd gwiriad cymhwystra terfynol yn cael ei gwblhau, ar sail y manylion a nodir ar frig y ddogfen hon.

# Cynllun Aberthu Cyflog ar gyfer Cerbyd Allyriadau Isel Iawn Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Wedyn, bydd Knowles Fleet yn ystyried y cais a gymeradwywyd, y cyflog a buddion presennol y cyflogai er mwyn sicrhau na fydd eich cyflog yn gostwng o dan yr isafswm cyflog cenedlaethol o ganlyniad i logi car drwy'r cynllun. Ar ôl i'ch archeb gael ei awdurdodi, byddwn yn anfon e-bost atoch yn gofyn ichi dderbyn newidiadau i delerau ac amodau eich cyflogaeth mewn perthynas â'r cyflog y byddwch yn ei aberthu.

Ar ôl ichi dderbyn y newid i'ch telerau ac amodau, bydd Knowles Fleet yn archebu'r cerbyd ac yn cysylltu â chi i gadarnhau'r amserlenni tebygol ar gyfer ei ddanfon atoch.

**Nodyn i'ch atgoffa – Drwy gyflwyno'r archeb a sicrhau awdurdodiad Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, rydych yn ymrwymo eich hun i brydlesu'r cerbyd drwy Gynllun Aberthu Cyflog ar gyfer Cerbyd Allyriadau Isel Iawn Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, a bydd yn ofynnol ichi dalu unrhyw daliadau canslo os ydych yn newid eich meddwl. Ni fyddwch yn gallu newid eich meddwl na gwneud unrhyw newidiadau i'r archeb ar ôl ei chyflwyno.**

Mae'r cerbydau sydd ar gael yn dibynnu ar amseroedd arwain archebion y gweithgynhyrchwr. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y caiff cerbydau eu danfon o stoc, ac felly bydd y fanyleb ofynnol ar gael ar unwaith.

### 5. Derbyn cadarnhad o'ch archeb

Ar ôl i Knowles Fleet dderbyn eich archeb cerbyd awdurdodedig, bydd yn anfon cadarnhad o'r archeb atoch. Caiff hwn ei anfon atoch drwy e-bost o fewn pum diwrnod gwaith. Os nad ydych yn cael eich cadarnhad o fewn pum diwrnod gwaith, cysylltwch â Knowles Fleet.

Ar y pwynt hwn, eich cyfrifoldeb chi yw gwirio'r cadarnhad o'r archeb yn ofalus i sicrhau bod y cerbyd cywir ac unrhyw ategolion wedi'u harchebu yn ôl eich dymuniadau. **Os oes unrhyw beth yn anghywir, bydd angen i chi ffonio Knowles Fleet o fewn 48 awr**. Ar ôl hyn, efallai na fydd Knowles Fleet yn gallu newid eich archeb.

### 6. Trefnu danfon eich car newydd atoch

Bydd Knowles Fleet yn rhoi gwybod ichi pryd y gallwch ddisgwyl derbyn eich car newydd. Amcangyfrif yw'r dyddiad hwn, ond cyn gynted ag y bydd y cerbyd mewn stoc, byddant yn cysylltu â chi i drefnu dyddiad ac amser danfon sy'n addas ichi.

### 7. Gweld y trefniant yn eich slip cyflog nesaf

Bydd eich slip cyflog nesaf ar ôl derbyn y cerbyd yn dangos y gostyngiad yn eich cyflog gros a'r swm gostyngol o dreth incwm ac Yswiriant Gwladol y byddwch yn ei dalu. Oherwydd eich bod yn talu treth ar werth y car, h.y. buddion mewn nwyddau neu wasanaethau, mae'n bosibl y bydd eich cod treth yn newid, a chaiff unrhyw dreth ychwanegol ei thynnu o'ch cyflog. Cofiwch na fydd hyn yn digwydd am rai misoedd o bosibl, oni bai eich bod wedi cysylltu â CThEF yn uniongyrchol i drefnu bod eich cod treth yn newid.

## A allaf newid fy archeb ar ôl imi ei gosod?

Mae'n bosibl y bydd modd diwygio'ch archeb er y gellir codi taliad am wneud hynny. Cysylltwch â'n tîm archebu ar 01206 255422.

# Cynllun Aberthu Cyflog ar gyfer Cerbyd Allyriadau Isel Iawn Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

## A allaf ganslo archeb?

Gallwch ganslo cytundeb drwy anfon e-bost at (ceisiadau@knowlesfleet.com) neu drwy’r post at Red Lion House, The Green, Great Bentley, Essex, CO7 8QG. Rhaid ichi wneud hyn o fewn **PUM DIWRNOD GWAITH** i'r dyddiad y gwnaethoch lofnodi’r cytundeb. Os ydych yn canslo'r cytundeb hwn o fewn y cyfnod canslo, bydd unrhyw arian yr ydych wedi'i dalu yn cael ei ddychwelyd atoch. Ni fydd yn rhaid ichi wneud unrhyw daliadau pellach.

Os ydych yn canslo'r archeb ar ôl i'r cyfnod o bum diwrnod ddod i ben, bydd yn ofynnol ichi dalu'r holl gostau sy'n gysylltiedig â chanslo. Fe'ch cynghorir i gysylltu â Knowles Fleet cyn ichi ganslo'r archeb. Codir taliad gweinyddol hefyd, a byddwch yn cael gwybod faint i’w dalu ar adeg canslo’r archeb.

## Pryd fydd fy nhaliad cyntaf?

Bydd eich taliad cyntaf yn dibynnu ar brosesau eich cyflogwr, ond fel arfer bydd yn cael ei wneud yn ystod y rhediad cyflog nesaf ar ôl danfon y cerbyd. Mae’n bosibl y bydd eich taliad yn cael ei gyfrifo ar sail pro-rata er mwyn ystyried y dyddiad danfon.

## Pam mae fy nyfynbrisiau yn wahanol i rai fy nghydweithwyr?

Mae dyfynbrisiau'n seiliedig ar y pris gorau sydd ar gael gan sawl cwmni prydlesu gwahanol ar yr adeg y byddwch yn cael eich dyfynbris. Mae'r cwmnïau prydlesu’n diweddaru eu prisiau yn rheolaidd. Hefyd, mae’n bosibl na fydd cwmni prydlesu a ddarparodd bris ddoe yn gwneud hynny heddiw.

Gan fod ein gwefan yn cynhyrchu prisiau byw yn gyson, gall dyfynbrisiau newid yn ddyddiol. Fodd bynnag, os ydych yn cadw dyfynbris, mae'n ddilys am 14 diwrnod, felly byddwch yn elwa ar gael y pris gorau. Fodd bynnag, gall dyfynbrisiau newid os bydd costau cyflenwi, cyfraddau llog, grantiau'r llywodraeth neu’r ddeddfwriaeth yn newid.

Mae eich dyfynbrisiau hefyd yn seiliedig ar eich amgylchiadau unigol a'ch milltiredd personol a gallai hynny esbonio pam eu bod yn wahanol i ddyfynbrisiau eich cydweithwyr.

## A allaf ychwanegu eitemau at y car yn ystod y contract fel bar tynnu neu deiars gaeaf?

Fel arfer mae'n bosibl ychwanegu eitemau yn ystod y contract, ond byddai angen ichi gysylltu â'r cwmni prydlesu i gadarnhau hynny oherwydd bod y cerbyd yn eiddo iddo. Os ydych yn ychwanegu unrhyw eitemau at y cerbyd yn ystod y contract, rhaid eu symud cyn dychwelyd y car ac unioni unrhyw ddifrod a achosir.

## A allaf osod archeb drwy fy nelwriaeth leol?

Bydd yr holl archebion yn cael eu gosod drwy rwydwaith cyflenwyr dewisol Knowles Fleet. Mae gan y cwmni berthynas hirsefydlog â phob un o'u cyflenwyr dewisol sy'n deall eu busnes yn llawn ac yn gallu cynnig gwasanaeth rhagorol.

# Cynllun Aberthu Cyflog ar gyfer Cerbyd Allyriadau Isel Iawn Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Fodd bynnag, os ydych yn dymuno cefnogi'ch delwriaeth leol, gallwch ei defnyddio ar gyfer eich holl ofynion o ran gwasanaethu a chynnal a chadw eich cerbyd.

## A oes gennych gerbyd y gallaf ei ddefnyddio nes bod fy ngherbyd yn cael ei ddanfon ataf?

Os ydych wedi archebu cerbyd a bod angen cerbyd dros dro arnoch nes iddo gael ei ddanfon atoch, mae'n bosibl y gallwn helpu gyda char dros dro. Ffoniwch ni ar 01206 255422 i drafod.

## Pa waith gofal a chynnal a chadw sydd eu hangen?

Yn naturiol, byddwch am gymryd gofal da o'ch car newydd ond mae rhai pwyntiau ynghylch gofalu amdano a'i gynnal a'i gadw y mae angen inni dynnu eich sylw atynt yn benodol.

- Mae Knowles Fleet yn cyfrifo'ch taliadau misol ar sail y dybiaeth y bydd y car yn cael ei gadw mewn cyflwr da, ac felly bydd yr adran hon yn manylu ar yr hyn a ddisgwylir.

- Er eich bod yn prydlesu'ch car, chi sy'n gyfrifol yn bersonol am sicrhau bod y cerbyd ar brydles yn addas i'w ddefnyddio ar y ffordd fawr – yn unol â gofynion cyfreithiol – fel pe baech chi'n berchen arno. Mae'n bwysig eich bod yn gwasanaethu'r cerbyd ac yn ei gynnal a'i gadw yn unol â'r amserlen yn llawlyfr y gwneuthurwr.

- Os caiff y cerbyd ei ddifrodi'n ddamweiniol, neu os byddwch yn sylwi ar ddiffyg, mae dyletswydd arnoch, yn unol ag amodau a thelerau'r cynllun, i roi gwybod i Knowles Fleet ar unwaith.

**Os caiff y car ei ddychwelyd gyda difrod y bernir ei fod yn fwy na 'thraul a gwisgo normal' mae'n bosibl y codir taliad arnoch ar adeg dychwelyd y car.**

### Hawlildiad difrod

Mae Knowles Fleet yn darparu hawlildiad difrod o £150 i roi rhywfaint o amddiffyniad ichi pan ydych yn dychwelyd y car. Sylwch, os yw unrhyw ddifrod a nodir yn costio llai na £150 i'w atgyweirio, bydd yr hawlildiad hwn yn eich diogelu. Os bydd unrhyw ddifrod a nodir yn costio mwy na £150 i'w atgyweirio, bydd yn ofynnol ichi dalu'r gweddill.

Os caiff y car ei ddifrodi ar unrhyw adeg, mae'n bwysig eich bod yn hysbysu Knowles Fleet fel y gellir ei atgyweirio.

### Gwasanaethu a chynnal a chadw

Mae gwasanaethu ac atgyweiriadau wedi'u cynnwys yn y gost fisol yr ydych yn ei thalu. Er mwyn sicrhau bod y cerbyd yn ddiogel i'w yrru a'i fod yn cael ei gadw yn y cyflwr gorau, rhaid iddo gael ei wasanaethu a'i gynnal yn unol â llawlyfr y gwneuthurwr. Dylid gwneud hyn mewn garej sy'n asiant awdurdodedig i'r gwneuthurwr neu garej arall a gymeradwyir gan Knowles Fleet.

Pan fydd eich car yn barod ar gyfer ei wasanaeth nesaf, neu os oes angen ei atgyweirio, ffoniwch Knowles Fleet. Yn dilyn gwasanaeth a drefnwyd, sicrhewch fod y garej yn stampio'r llyfr gwasanaeth i gadarnhau bod y gwasanaeth a drefnwyd wedi'i gwblhau. Er mwyn sicrhau bod y cerbyd yn ddiogel ac yn perfformio'n dda, mae Knowles Fleet yn argymell eich bod yn cynnal gwiriadau cynnal a chadw rheolaidd yn unol â llawlyfr y gwneuthurwr.

# Cynllun Aberthu Cyflog ar gyfer Cerbyd Allyriadau Isel Iawn Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

## Casglu a danfon y cerbyd

Pan fydd eich car yn barod ar gyfer ei wasanaethu a/neu waith cynnal a chadw, gallwch ffonio Knowles Fleet a bydd yn trefnu popeth ar eich cyfer, gan gynnwys trefnu bod y car yn cael ei gasglu a'i ddychwelyd atoch ar ôl cwblhau'r gwaith.

## Gwasanaeth torri i lawr ac adfer

Mae'r cynllun yn cynnwys gwasanaeth brys Pum Seren, 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn, tra byddwch yn y DU. Edrychwch ar y manylion y mae Knowles Fleet yn eu hanfon atoch ar ddechrau'r contract. Mewn argyfwng, gallwch ddod o hyd i rifau cymorth yma:
https://www.knowlesfleet.com/contact-info.aspx

## Teiars

Mae costau teiars newydd wedi'u cynnwys yn y cytundeb prydles, a'ch cyfrifoldeb chi yw sicrhau, bob amser, fod dyfnder y gwadn o amgylch cylchedd a lled pob un o deiars y cerbyd yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol lleiaf o leiaf. Pan ddaw'r amser i newid eich teiars, ffoniwch Knowles Fleet.

## Gwydr a ffenestri blaen

A yw eich ffenestr flaen wedi'i tsipio neu a oes crac ynddi? Mae'n debygol y bydd yn bosibl ei hatgyweirio. Ffoniwch Knowles Fleet. Mae'r gost o atgyweirio neu osod gwydr newydd yn eich cerbyd wedi'i chynnwys yn y cytundeb prydlesu er efallai y bydd yn rhaid i chi dalu taliad yswiriant ychwanegol o £75 i'r yswiriwr am sgrin newydd.

## Cadw'r cerbyd yn lân

Eich cyfrifoldeb chi yw cadw'r cerbyd yn lân ac yn daclus y tu mewn a'r tu allan. **Nid** yw'r contract cynnal a chadw yn cynnwys costau glanhau. Fodd bynnag, gall rhai delwyr gynnig golchi a glanhau eich cerbyd fel rhan o wasanaeth neu waith cynnal a chadw pan ydych yn ei archebu drwy Knowles Fleet.

## Esgeulustod y gyrrwr a digwyddiadau nad yw yswiriant y cerbyd yn eu cynnwys

Codir taliadau arnoch ar gyfer costau sy'n gysylltiedig ag esgeuluso'r cerbyd ac ar gyfer nifer o ddigwyddiadau cyfyngedig nad yw yswiriant y cerbyd yn eu cwmpasu. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Difrod (na roddwyd gwybod amdano i'r tîm rheoli damweiniau)
- Eitemau coll (gan gynnwys allweddi, nytiau cloi olwynion a llyfrau gwasanaeth)
- Difrod maleisus i deiars

## Trethu eich cerbyd (Trwydded Cronfa Ffordd)

Mae cost trethu eich car (Trwydded Cronfa'r Ffordd) wedi'i chynnwys yn eich taliad misol. Rydyn ni'n gofalu am y gwaith papur, felly mae'ch car wedi'i drethu ac yn barod i'w ddefnyddio.

## Profion MOT

Os oes angen prawf MOT ar eich car, mae'r gost wedi'i chynnwys yn llwyr yn eich taliad misol. Byddwn yn anfon nodyn atgoffa i'ch cyfeiriad cartref tua phedwar mis cyn dyddiad ailbrofi'r car. Yna bydd angen ichi drefnu prawf MOT ar ei gyfer mewn gorsaf brawf ar amser sy'n gyfleus ichi. Cysylltwch â Knowles Fleet er mwyn trefnu prawf i'r cerbyd mewn gorsaf MOT a gymeradwyir gan Knowles Fleet.

## Beth yw rhif y llinell gymorth?

Rhif cyswllt y llinell gymorth i yrwyr yw 01206 252300.

# Cynllun Aberthu Cyflog ar gyfer Cerbyd Allyriadau Isel Iawn Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

## Sut y gallaf drefnu gosod man gwefru gartref ar gyfer car trydan neu gar hybrid?

Gall y brifysgol gynnig cyfradd ostyngol i staff ar gyfer gosod mannau gwefru trydan gartref PodPoint. Mae staff yn gymwys i gael gostyngiad o £30 gan PodPoint wrth osod mannau gwefru gartref. Gallwch gychwyn ymholiad yma: https://info.pod-point.com/partners/home-charging/

Fel arall, gall Knowles Fleet hefyd eich rhoi mewn cysylltiad â gosodwr cymeradwy a fydd yn cysylltu â chi yn uniongyrchol er mwyn cynnal arolwg o'ch cartref cyn gosod yr offer. Os hoffech drafod yr opsiwn hwn, ffoniwch y tîm dyfynbrisiau ar 01206 255422 neu anfonwch e-bost at evcharging@kafleet.com

## Beth am yswiriant?

Fel rhan o'r cynllun mae yswiriant cerbyd cynhwysfawr wedi'i gynnwys yn eich taliad misol. Mae manylion llawn y polisi ar gael yma a cheir rhagor o fanylion am gymhwystra a thaliadau ychwanegol y polisi yma.

### Cymhwystra

- Rhaid i bob gyrrwr fod rhwng 18 a 75 oed (uchafswm oedran o 78 ar ddiwedd y contract)
- Rhaid i bob gyrrwr feddu ar drwydded lawn o'r DU, yr UE, yr AEE neu un o'r gwledydd canlynol: Andorra, Awstralia, Barbados, Ynysoedd Prydeinig y Wyryf, Canada, Ynysoedd Falkland, Ynysoedd Ffaro, Hong Kong, Japan, Monaco, Seland Newydd, Gweriniaeth Korea, Singapore, De Affrica, y Swistir, UDA neu Zimbabwe
- Rhaid eich bod wedi bod yn gyflogai parhaol am o leiaf chwe mis neu, yn achos cyflogeion cyfnod penodol, fod gennych gontract cyflogaeth a fydd yn para'n hwy na chyfnod prydlesu'r cerbyd
- Rhaid i bob gyrrwr fod yn breswylydd parhaol yn y DU neu fod â fisa DU a fydd yn para'n hwy na chyfnod prydlesu'r cerbyd
- Dim mwy na dwy euogfarn categori 'A' sydd wedi'u datgelu a dim mwy nag un hawliad BAI fesul gyrrwr wedi'i ddatgelu yn ystod y tair blynedd diwethaf
- Mae hawliadau neu euogfarnau categori 'A' sydd dros dair mlwydd oed o ddyddiad danfon y car yn dderbyniol. Mae euogfarnau a ddangosir isod mewn coch, sydd dros bum mlwydd oed o ddyddiad danfon y car, hefyd yn dderbyniol
- Nid oes gan unrhyw yrrwr euogfarn nad yw'n ymwneud â moduro nad yw wedi'i disbyddu o dan y Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr
- Nid yw unrhyw yrrwr yn cael eu cyflogi gan y gwasanaethau brys oni bai y cytunwyd ar hyn yn benodol
- Nid yw unrhyw yrrwr yn enwog neu fel arall yn llygad y cyhoedd, gan gynnwys mabolgampwyr, actorion a cherddorion proffesiynol

Mae euogfarnau Categori 'A' yn ymddangos ar wiriadau trwydded ar-lein ac yn dechrau gyda'r codau canlynol:

- CU neu LC neu MW neu PC neu SP neu TS

**Sylwch:** Os oes gennych unrhyw un o'r canlynol, NID YDYCH yn bodloni'r meini prawf cymhwystra ar gyfer y cynllun.

- Unrhyw euogfarn sydd wedi arwain at waharddiad yn ystod y pum mlynedd diwethaf (gan gynnwys unrhyw un o godau'r mân euogfarnau uchod)
- Euogfarn a roddwyd yn ystod y pum mlynedd diwethaf sydd ag unrhyw un o'r llythrennau canlynol ar eich trwydded;

AC – BA – CD – DD – DG – DR – IN – MS – TT – UT

# Cynllun Aberthu Cyflog ar gyfer Cerbyd Allyriadau Isel Iawn Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

### Polisi taliadau yswiriant ychwanegol

- Taliad ychwanegol o £250 ar gyfer difrod damweiniol
- Taliad ychwanegol o £250 ar gyfer tân, dwyn a difrod maleisus
- Taliad ychwanegol o £75 ar gyfer ffenestr flaen newydd (ni fydd angen talu taliad ychwanegol os caiff y ffenestr flaen ei thrwsio)
- Mae taliad ychwanegol o £300 yn berthnasol i yrwyr 17 i 20 oed ar gyfer difrod damweiniol
- Mae taliad ychwanegol o £200 yn berthnasol i yrwyr 21 i 24 oed ar gyfer difrod damweiniol

### Beth mae'r yswiriant yn ei gwmpasu

- Mae'r premiwm yn bris sefydlog gwirioneddol sy'n para hyd oes eich cytundeb
- Mae'r yswiriant safonol yn cwmpasu defnydd cymdeithasol, domestig, pleser a chymudo, gan gynnwys defnydd gan ddeiliad y polisi mewn cysylltiad â busnes ei gyflogwr. Gellir ystyried mathau eraill o ddefnydd busnes ar gyfer deiliad y polisi a/neu briod / partner sifil fesul achos, ond peidiwch ag archebu car heb wirio yn gyntaf. Bydd unrhyw yrwyr eraill a restrir ar yr yswiriant (nid partner / priod) yn cael eu hyswirio ar gyfer defnydd cymdeithasol, domestig a phleser yn unig
- Yswiriant diderfyn ar gyfer offer sain a llywio sydd wedi'i osod ar eich cerbyd yn barhaol ac nad oes ganddo ffynhonnell pŵer annibynnol
- Eiddo personol yn eich car hyd at £350
- Cloeon newydd (gweler geiriad llawn y polisi am fanylion)
- Difrod i'ch cerbyd o ganlyniad i roi'r tanwydd anghywir ynddo (nid yw'r yswiriant yn cynnwys costau'r gwaith o gael y tanwydd anghywir allan ac ail-lenwi'r car â'r tanwydd cywir)
- Triniaeth feddygol frys
- Costau meddygol, hyd at £350 y pen
- Cludiant mewn damwain / adfer y cerbyd
- Yswiriant ar gyfer seddi car plant, hyd at £100 y sedd
- Defnydd estynedig rhad ac am ddim o'ch car yn yr UE, hyd at gyfnod o 60 diwrnod
- Os oes damwain, a bod y car yn cael ei atgyweirio gan atgyweirydd sydd wedi'i gymeradwyo gan NIG mewn damwain, darperir car cwrteisi cyhyd ag y bo'r gwaith atgyweirio'n mynd rhagddo.
- Os caiff y cerbyd ei ddwyn ac nid yw'n cael ei adfer, neu os datgenir ei fod y tu hwnt i'w atgyweirio, darperir car cwrteisi am hyd at 14 diwrnod neu hyd nes y cytunir ar setliad (pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf).

## Beth os ydw i'n cael damwain?

Rhaid rhoi gwybod am bob difrod, a chyflwyno hawliad drwy Knowles Fleet. Yn yr un modd ag unrhyw bolisi yswiriant, mae eithriadau bob amser yn berthnasol. Mae'n bwysig eich bod yn ymwybodol mai eich cyfrifoldeb chi fydd talu unrhyw gostau sy'n ymwneud â difrod NAD YDYNT wedi'u cynnwys yn yswiriant y car.

Sicrhewch eich bod wedi ymgyfarwyddo â dogfen geiriad y polisi ar gyfer yr yswiriant llawn sy'n cadarnhau'r holl eitemau mae'r yswiriant yn ei gwmpasu a'r holl eithriadau. Mae'n bwysig eich bod yn ymwybodol, drwy gytuno i'r telerau a'r amodau ar gyfer aberthu cyflog, y bydd unrhyw daliadau o ganlyniad i'r ffaith nad yw'r polisi yswiriant yn cynnwys eitemau penodol, yn cael eu hailgodi arnoch drwy Knowles Fleet.

# Cynllun Aberthu Cyflog ar gyfer Cerbyd Allyriadau Isel Iawn Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Os ydych mewn damwain yn y cerbyd ar brydles, rhaid ichi bob amser weithredu i ddiogelu eich buddiannau chi, buddiannau Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a buddiannau'r yswirwyr fel a ganlyn:

- Cymerwch fanylion llawn yr holl gerbydau fu'n rhan o'r ddamwain, ynghyd ag enwau a chyfeiriadau gyrwyr, eu hyswirwyr (os ydynt ar gael), a gwiriwch eu hunaniaeth os yn bosibl (drwy ofyn am dystiolaeth o hunaniaeth).
- Brasluniwch gynllun bras o leoliad y ddamwain, gydag enwau ffyrdd a rhifau, cyffyrdd, amser a lleoliad y ddamwain ac ati cyn gynted â phosibl (dim ond os yw'n ddiogel ichi wneud hynny).
- Os yw'n bosibl neu'n ymarferol, tynnwch luniau o leoliad y ddamwain a'r difrod i'r cerbyd[au].
- Nodwch fanylion llawn unrhyw dystion a fu'n rhan o'r ddamwain; tystion annibynnol neu fel arall.
- Rhowch eich enw a'ch cyfeiriad, enw a chyfeiriad y cwmni a'ch yswiriwr (fel y nodir ar flaendudalen eich polisi yswiriant) i bob trydydd parti.
- Rhowch wybod i'r heddlu os oes unrhyw un fu'n rhan o'r ddamwain wedi'i anafu neu os oes difrod i eiddo.
- Rhaid hysbysu'r heddlu hefyd mewn achosion o ddwyn neu os na wnaeth trydydd parti stopio neu yrru i ffwrdd heb roi manylion.

Rhaid rhoi gwybod am bob hawliad drwy ein gwefan, [www.knowlesfleet.com](http://www.knowlesfleet.com) gan ddewis 'report an accident', neu drwy ffonio 01206 257220.

Bydd angen ichi nodi'ch rhif cofrestru a mewngofnodi i'ch cyfrif cyn cwblhau ffurflen damwain. Bydd angen ichi gynnwys cymaint o fanylion â phosibl er mwyn sicrhau nad oes oedi wrth brosesu eich cais. Ar ôl ichi gwblhau'r ffurflen, cewch gyfle i ddewis atgyweirydd lleol.

Darperir gwasanaeth rheoli damweiniau llawn fel rhan o'r cynllun, gan gynnwys y canlynol:

- Rheoli hawliadau
- Rheoli gwaith atgyweirio
- Car cwrteisi
- Llogi car cyfatebol yn lle eich cerbyd chi ar gyfer digwyddiadau nad ydynt yn fai arnoch
- Cyfleuster ar gyfer hawliadau anaf personol

Sicrhewch fod y manylion canlynol hyn wrth law pan fyddwch yn cysylltu:

- Rhif cofrestru eich cerbyd
- Dyddiad ac amser y digwyddiad
- Lleoliad y digwyddiad
- Y rhan o'ch cerbyd sydd wedi'i ddifrodi
- Eich cyfeiriad cartref
- Manylion trydydd partïon, os yn berthnasol
- Manylion unrhyw deithwyr yn eich cerbyd

Os oes car cwrteisi ar gael, caiff ei ddarparu pan fydd y cerbyd yn cael ei atgyweirio. Os bernir bod y cerbyd y tu hwnt i'w atgyweirio, darperir car ar log am y 48 awr cyntaf ar ôl y ddamwain, yn rhad ac am ddim, er mwyn galluogi'r cyflogai i wneud trefniadau angenrheidiol ar gyfer cerbyd newydd. Ar ddiwedd y 48 awr bydd y car ar log yn cael ei gasglu oddi wrth y cyflogai, neu fe all barhau i ddefnyddio'r cerbyd ond bydd yn gyfrifol am y costau o'i logi.

# Cynllun Aberthu Cyflog ar gyfer Cerbyd Allyriadau Isel Iawn Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

## A allaf fynd â'm car dramor?

Mae'n bosibl y bydd y cwmni prydlesu'n caniatáu ichi fynd â'r cerbyd dramor, ond bydd angen ffurflen VE103 arnoch er mwyn gwneud hynny.
Os hoffech chi fynd â'ch cerbyd dramor, ffoniwch ni ar 01206 257220 a byddwn yn egluro'r weithdrefn ichi. Sicrhewch eich bod yn cysylltu â ni o leiaf mis cyn ichi gychwyn ar eich taith.

## Beth sy'n digwydd ar ddiwedd y contract?

Ar ddiwedd y cyfnod llogi ar gontract, rhaid i'r cyflogai ddanfon y cerbyd i'r cwmni prydlesu ar unwaith, mewn cyflwr da (dim ond traul a gwisgo normal a dderbynnir), ac yn rhydd rhag unrhyw ddiffygion heblaw'r rheini y mae'r cyflogai eisoes wedi rhoi gwybod i reolwr y cynllun amdanynt. Bydd taliadau'n parhau nes bod y car yn cael ei gasglu.

Bydd cyflwr y car yn cael ei werthuso ym mhresenoldeb y cyflogai, ac mae'n bosibl y bydd yn ofynnol iddo ad-dalu'r costau ar gyfer unrhyw waith atgyweirio y mae'r cwmni prydlesu yn barnu bod angen ei wneud i wella cyflwr y cerbyd gan ystyried traul a gwisgo normal.

Fel y nodwyd yn flaenorol, ar ddiwedd y cyfnod llogi ar gontract, rhoddir cyfle i'r cyflogai brynu'r cerbyd ar gyfradd y cytunir arni gyda'r cwmni prydlesu.

Os yw eich milltiredd yn fwy na therfyn eich contract, byddwch yn cael bil am filltiredd sydd uwchlaw'r terfyn ar ddiwedd y contract. Bydd y gyfradd fesul milltir yn cael ei nodi ar eich dyfynbris gwreiddiol.
Os ydych yn gwybod eich bod yn debygol o fynd y tu hwnt i derfyn milltiredd eich contract, gallwch gysylltu â ni i gael ail ddyfynbris er mwyn lleihau'r bil ar ddiwedd y contract.

# Cynllun Aberthu Cyflog ar gyfer Cerbyd Allyriadau Isel Iawn Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

**Atodiad Un**

| Senario'r cyflogai | Cyfrifoldeb | Eglurhad |
|---|---|---|
| Ymddiswyddo / diswyddo ar sail wirfoddol | Y cyflogai | Byddai'r cyflogai'n atebol am dalu'r gosb terfynu cynnar |
| Terfynu contract | Y cyflogai | Os yw'r cyflogai'n torri ei gontract cyflogaeth, gan arwain at derfynu ei gyflogaeth, y cyflogai fydd yn gyfrifol am dalu'r gosb terfynu cynnar |
| Ymddeol | Y cyflogai | Os yw'r cyflogai'n dewis ymddeol cyn diwedd y cytundeb, yna'r cyflogai fydd yn gyfrifol am dalu'r gosb terfynu cynnar |
| Colli trwydded (am reswm anfeddygol, h.y. gwaharddiad neu atal trwydded dros dro) | Y cyflogai | Pe bai trwydded yn cael ei cholli yna byddai'r cyflogai naill ai'n parhau i dalu'r taliad misol tan ddiwedd y cytundeb, neu byddai'n yn dychwelyd y cerbyd. Os yw'r cerbyd yn cael ei ddychwelyd, yna byddai'r cyflogai'n gyfrifol am dalu'r gosb terfynu cynnar. |
| Diswyddo gorfodol | Y gronfa wrth gefn | Er mwyn i'r gronfa wrth gefn dalu ei daliadau, byddai'r cyflogai'n dychwelyd y car ac ni fyddai'n gyfrifol am dalu'r gosb terfynu cynnar |
| Colli trwydded (o ganlyniad i gyflwr meddygol) | Y gronfa wrth gefn | Er mwyn i'r gronfa wrth gefn dalu ei daliadau, byddai'r cyflogai'n dychwelyd y car ac ni fyddai'n gyfrifol am dalu'r gosb terfynu cynnar |
| Marw yn y swydd | Y gronfa wrth gefn | Er mwyn i'r gronfa wrth gefn dalu ei daliadau, byddai'r cyflogai'n dychwelyd y car ac ni fyddai'n gyfrifol am dalu'r gosb terfynu cynnar |
| Salwch terfynol | Y gronfa wrth gefn | Er mwyn i'r gronfa wrth gefn dalu ei daliadau, byddai'r cyflogai'n dychwelyd y car ac ni fyddai'n gyfrifol am dalu'r gosb terfynu cynnar |
| Newid mewn ffordd o fyw (fel y'i diffinnir gan CThEF) | Y gronfa wrth gefn | Er mwyn i'r gronfa wrth gefn dalu ei daliadau, byddai'r cyflogai'n dychwelyd y car ac ni fyddai'n gyfrifol am dalu'r gosb terfynu cynnar |
| Absenoldeb rhiant (mamolaeth, tadolaeth, absenoldeb rhiant a rennir, mabwysiadu) | Y gronfa wrth gefn* | Pan fydd cyflog y cyflogai'n gostwng i dâl statudol, bydd hyd at uchafswm o chwe thaliad misol yn cael eu talu o'r gronfa wrth gefn nes i'r cyflogai ddychwelyd i'w gyflog llawn.<br>**Fodd bynnag, os yw'r cyflogai'n dychwelyd i'r gwaith ar ôl absenoldeb rhiant ac yn gofyn am leihau'r oriau contract gan olygu bod ei gyflog yn gostwng o dan y cyflog byw cenedlaethol, bydd y cyflogai'n gyfrifol am dalu'r gosb terfynu cynnar.* |

# Cynllun Aberthu Cyflog ar gyfer Cerbyd Allyriadau Isel Iawn Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

| | | |
|---|---|---|
| Absenoldeb salwch – Pan fo cyflog cyflogai'n gostwng o dan y cyflog byw cenedlaethol | Y gronfa wrth gefn* | Os yw cyflog y cyflogai'n gostwng i hanner cyflog ac o dan y cyflog byw cenedlaethol, yna bydd y gronfa wrth gefn neu'r polisi yn talu'r taliadau nes i'r cyflogai ddychwelyd i gyflog llawn (hyd at uchafswm o chwe mis).<br>**Fodd bynnag, os na fydd y cyflogai yn dychwelyd i'r gwaith ar ôl y cyfnod o chwe mis pan fo'r gronfa wrth gefn neu'r polisi'n talu, neu fod y cyflogai'n gwneud hynny ac yn gofyn am leihau'r oriau contract gan olygu bod ei gyflog yn gostwng o dan y cyflog byw cenedlaethol, yna bydd y cyflogai'n gyfrifol am dalu'r gosb terfynu cynnar.* |